Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

## Papur briffio

Tachwedd 2023



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6472**
E-bost: **Sara.Moran2@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

## Papur briffio

Tachwedd 2023

**Awdur:**
Sara Moran

## **Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("y Ddeddf")** yw cynllun Llywodraeth y DU ar gyfer y rhan fwyaf o gyfraith yr UE sy'n parhau yn ei lle ar ôl Brexit.

Er mwyn lleihau'r tarfu wrth ymadael â'r UE, newidiodd y DU gyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig a'i galw'n gyfraith yr UE a ddargedwir. Roedd cyfraith yr UE a ddargedwir yn golygu bod cyfreithiau cyn Brexit yn parhau i fod ar waith i osgoi bylchau mewn meysydd pwysig fel safonau cynhyrchion, lles anifeiliaid a chyfraith cyflogaeth. Bron dair blynedd yn ddiweddarach, mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn parhau i fod ar waith ac mae gwahaniaeth barn am yr hyn y dylai'r DU ei wneud am y sefyllfa.

Y Ddeddf hon yw cynllun Llywodraeth y DU ar gyfer ymdrin â'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE sy'n parhau yn ei lle yn y DU ar ôl Brexit.

Mae'r Ddeddf yn:

- dirymu rhywfaint o gyfraith yr UE a ddargedwir fel ei fod yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023;
- dirymu hawliau sy'n deillio o'r UE ar 31 Rhagfyr 2023;
- ailenwi cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n weddill yn "gyfraith a gymathwyd" o 1 Ionawr 2024;
- rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru cadw, ddiwygio, diddymu a disodli cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith a gymathwyd yn haws;
- rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru ail-greu effaith goruchafiaeth cyfraith yr UE a ddargedwir i raddau cyfyngedig mewn perthynas ag offerynnau penodol;
- darparu rhagor o ddisgresiwn i lysoedd domestig ymadael â chyfraith achosion cyfraith yr UE a ddargedwir;
- diddymu'r Targed Effaith Busnes fel rhan o ddiwygiadau rheoleiddiol eraill.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........................................................................................ 1**

**2. Diben y Ddeddf .................................................................................. 7**

**3. Sut i gadw cyfraith yr UE a ddargedwir ................................... 7**

**4. Sut i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir ............................ 11**

**5. Sut i ddileu cyfraith yr UE a ddargedwir ................................. 13**

**6. Newidiadau rheoleiddiol i leihau beichiau ............................. 15**

**7. O 1 Ionawr 2024 ymlaen ................................................................ 15**

**8. Rheolau ar gyfer gwneud rheoliadau ....................................... 18**

**9. Cychwyn, rhychwant ac ati ........................................................ 21**

**10. Atodiad: Darpariaethau'r Bil ar gipolwg ................................ 22**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o **Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023**, gan ganolbwyntio ar y llwybrau sydd ar gael i Weinidogion Cymru gadw, diwygio a dileu cyfraith yr UE a ddargedwir.

## Nodweddion pwysig y Ddeddf

Mae rhai o nodweddion pwysig y Ddeddf yn allweddol er mwyn ei deall.

**Nid yw union nifer cyfreithiau yr UE a ddargedwir yn hysbys.**

Mae'n anodd mesur cyfraith yr UE a ddargedwir. Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif bod 4,994 o ddarnau o ddeddfwriaeth ar ei **dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir**, ond nid yw hyn yn cynnwys cyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed gan Weinidogion Cymru. Un peth sy'n dangos yr amrywiaeth o gyfraith yr UE a ddargedwir yw bod y dangosfwrdd yn dangos amcangyfrif bod 1,697 o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir ar gyfraith yr amgylchedd, bwyd a materion gwledig, 128 ar iechyd a gofal cymdeithasol, 28 ar dechnoleg ddigidol, diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon ac 21 ar addysg. Mae mesur agweddau eraill ar gyfraith yr UE a ddargedwir, fel egwyddorion cyffredinol yr UE a ddargedwir a chyfraith achosion, yn gosod heriau pellach.

**Dywedodd Kemi Badenoch AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach, wrth Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd** ynglŷn â'r dangosfwrdd:

> Is not intended to provide a comprehensive account of REUL in general, nor of REUL that sits with the competence of the devolved governments, although it may contain individual pieces of REUL which do sit in devolved areas. The devolved governments remain responsible for identifying REUL within their respective areas of devolved competence.

Ni wnaeth Llywodraeth y DU dderbyn **cais gwreiddiol Llywodraeth Cymru** i'r dangosfwrdd nodi pa ddeddfwriaeth a ddargedwir ac sydd wedi datganoli, a sut y gellid effeithio ar ddeddfwriaeth Cymru.

**Ceir pedwar math o gyfraith yr UE a ddargedwir.**

Mae **categorïau gwahanol** o gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n adlewyrchu ei tharddiad yng nghyfraith yr UE. Dyma'r tri phrif gategori:

1. **Deddfwriaeth ddomestig** sy'n deillio o'r UE, sef cyfraith ddomestig a oedd yn

rhoi effaith i gyfraith yr UE yn y DU. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol, fel Deddf Cydraddoldeb 2010, ac is-ddeddfwriaeth, fel rheoliadau bwyd;

2. **Deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir**, sef cyfraith yr UE a oedd yn gymwys yn awtomatig yn y DU fel Aelod-wladwriaeth, fel Rheoliadau a Phenderfyniadau'r UE;
3. **Cyfreithiau eraill yr UE a ddargedwir,** sy'n cwmpasu hawliau a rhwymedigaethau eraill yr UE.

Mae'r pwerau y mae'r Ddeddf hon yn eu rhoi i Weinidogion Cymru yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig.

Mae adran 11(2) o'r Ddeddf yn diffinio 'cyfraith yr UE a ddargedwir' fel:

- unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir nad yw'n ddeddfwriaeth sylfaenol; ac
- unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ddeddfwriaeth sylfaenol, y mewnosodwyd ei thestun gan is-ddeddfwriaeth.

**Mae'r Ddeddf ar yr un pryd yn sefydlu system gymhleth o bwerau dirprwyedig ac yn dechrau cyfrif i lawr i ddyddiadau allweddol.**

Mae'r Ddeddf wedi rhoi pwerau eang i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru, gan gynnwys diwygio, diddymu a disodli cyfraith yr UE a ddargedwir yn haws.

Mae'r Ddeddf yn dechrau cyfrif i lawr hyd at 31 Rhagfyr 2023 pan:

- Bydd tua 600 o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 y Ddeddf yn cael eu dirymu oni bai iddo gael ei gadw gan Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru erbyn 31 Hydref 2023;
- Bydd rhai pwerau Gweinidogol yn dod i ben;
- Bydd hawliau sy'n deillio o'r UE yn gosod machlud awtomatig;
- Bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r ffordd y caiff cyfraith yr UE a ddargedwir ei drin gan y llysoedd;
- Bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r hierarchaeth gyfreithiol ddomestig; a
- Bydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei ailenwi'n "gyfraith a gymathwyd" o 1 Ionawr 2024.

Bydd llawer o bwerau Gweinidogol y Ddeddf yn dod i ben ar 23 Mehefin 2026.

**Mewn meysydd datganoledig, mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd.**

Mae'r Ddeddf yn diffinio 'awdurdod cenedlaethol perthnasol' fel un sy'n cynnwys Gweinidogion y DU, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU yn gweithredu ar y cyd â Gweinidogion Cymru. Mae darpariaethau tebyg yn gymwys o ran y llywodraethau datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Pan fydd gan Weinidogion datganoledig a Gweinidogion y DU yr un pŵer i weithredu mewn meysydd datganoledig, gelwir y rhain yn 'bwerau cydredol'.

**Gall Gweinidogion y DU ddefnyddio pwerau cydredol i weithredu ar eu pen eu hunain mewn meysydd datganoledig ac nid oes rhaid cael cydsyniad gan Weinidogion Cymru. Senedd y DU fyddai'n craffu ar y defnydd o'r pwerau hyn a byddai'n hepgor Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru.**

Gallai Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru hefyd arfer y pwerau hyn ar y cyd, a hynny mewn un gyfres o reoliadau y mae'r ddwy ochr yn cytuno arni. Byddai hyn yn gofyn am brosesau cyfochrog yn Senedd y DU a Senedd Cymru.

**Mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang i wneud newidiadau.**

Mae'r Ddeddf yn rhoi llawer o lwybrau i Weinidogion Cymru wneud newidiadau, gan gynnwys diwygio, ailddatgan neu ddileu cyfraith yr UE a ddargedwir. Gallant hefyd wedi cadw cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 fel na fydd yn cael ei ddirymu ar 31 Rhagfyr 2023 ond daeth y pŵer hwn i ben ar 31 Hydref 2023. Mae pob opsiwn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru nodi cyfraith yr UE a ddargedwir, penderfynu beth y mae am ei wneud a dewis pa lwybr i'w ddilyn o dan y Ddeddf, oll gan benderfynu beth fydd effaith cynlluniau'r DU a'r llywodraethau datganoledig eraill ar yr hyn y mae am ei wneud. Os na chymerir unrhyw gamau, bydd cyfraith yr UE a ddargedwir nad yw wedi'i dirymu ar 31 Rhagfyr yn cael ei hailenwi'n 'gyfraith a gymathwyd' o 1 Ionawr 2024 a bydd yn parhau i fod yn gymwys fel y nodir yn y Ddeddf.

Mae'r ffeithlun ar **dudalen 6** yn dangos sut y gallai Gweinidogion Cymru neu Weinidogion y DU wneud y newidiadau hyn.

**Bydd Llywodraeth y DU yn diweddaru ei dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir ac yn cyhoeddi adroddiad bob chwe mis ar y Ddeddf tan 23 Mehefin 2026. Dylai Senedd y DU gael cyfanswm o chwe adroddiad.**

Mae Adran 17 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth y DU i lunio adroddiadau ar y Ddeddf sy'n cwmpasu cyfnodau chwe mis a gofynion ar gyfer yr hyn y dylai'r adroddiad ei gynnwys. Rhaid i bob adroddiad gael ei gyhoeddi a'i osod yn Senedd y DU o fewn 30 diwrnod i'r dyddiadau isod.

1. Cyfnod adrodd 1: 23 Rhagfyr 2023
2. Cyfnod adrodd 2: 23 Mehefin 2024
3. Cyfnod adrodd 3: 23 Rhagfyr 2024
4. Cyfnod adrodd 4: 23 Mehefin 2025
5. Cyfnod adrodd 5: 23 Rhagfyr 2025
6. Cyfnod adrodd 6: 23 Mehefin 2026

Rhaid i bob adroddiad ddarparu:

- Crynodeb o'r dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir wedi'i ddiweddaru;
- Diweddariad cynnydd ar ddirymu a diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir yn y cyfnod adrodd;
- Cynllun ar gyfer dirymu a diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir mewn cyfnodau adrodd dilynol, gan gynnwys rhestr o ddarpariaethau.

Os na fydd un o Weinidogion y DU yn bodloni'r gofyniad i ddiweddaru'r dangosfwrdd a chyhoeddi adroddiad bob chwe mis, rhaid iddo egluro pam mewn datganiad ysgrifenedig sy'n cael ei gyhoeddi a'i osod yn Senedd y DU.


**Mae'r Ddeddf yn croestorri â nifer o faterion ehangach.**

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Anghydfodau posibl rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch yr hyn sydd wedi'i gadw/ei ddatganoli;
- Cydymffurfiad y DU â rhwymedigaethau rhyngwladol, y mae **Llywodraeth y DU wedi ymrwymo** i;
- Sicrhau nad yw safonau'n disgyn islaw lefelau cyn Brexit er mwyn osgoi mesurau

dros dro mewn ymateb gan yr UE, fel rhan o'r ymrwymiad dim atchwelyd o ran **Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE**;

- **Alinio ac ymwahanu** rheoleiddiol o fewn y DU a rhwng y DU a'r UE;
- **Uchelgais Llywodraeth Cymru** yw gwella safonau cyn Brexit, lle bo modd;
- Gweithrediad **Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020**; a
- Newidiadau posibl ym meysydd y **fframweithiau cyffredin**.




- Mae pwerau i gadw, dirymu, disodli ac ati ar gael ar gyfer is-gyfraith yr EU a ddargedwir yn unig. Gellir diwygio Cyfraith Uniongyrchol yr UE a Ddargedwir / Cyfraith Uniongyrchol yr UE a Gymathwyd drwy ddefnyddio pwerau gwneud deddfwriaeth arferol.
- Gellir gwneud newidiadau i gyfraith yr EU a ddargedwir hefyd drwy ddefnyddio pwerau deddfwriaethol arferol y tu allan i'r Ddeddf.

# 2. Diben y Ddeddf

Diben y Ddeddf yw:

> Dirymu cyfraith benodol yr UE a ddargedwir; i wneud darpariaeth sy'n ymwneud â dehongli cyfraith yr UE a ddargedwir a'i pherthynas â chyfraith arall; i wneud darpariaeth ynghylch pwerau i addasu cyfraith yr UE a ddargedwir; i alluogi ailddatgan, disodli neu ddiweddaru rhai o gyfreithiau'r UE a ddargedwir; galluogi diweddaru ailddatganiadau a darpariaeth amnewid; i ddileu'r targed effaith busnes; ac at ddibenion cysylltiedig.

Mae **Nodiadau Esboniadol** y Ddeddf yn cadarnhau y bydd yn rhoi effaith i'r polisïau a nodir yn yr **adroddiad 'Benefits of Brexit'** gan Lywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022.

# 3. Sut i gadw cyfraith yr UE a ddargedwir

Mae'r Ddeddf yn darparu pedwar llwybr i Weinidogion Cymru ar gyfer cadw cyfraith yr UE a ddargedwir, sydd wedi'u crynhoi yn yr adran hon.

## Llwybr 1: Esemptio cyfraith yr UE a ddargedwir o Atodlen 1 drwy ei restru mewn rheoliadau cyn 31 Hydref 2023. Bydd hyn yn ei gadw rhag cael ei dirymu ar 31 Rhagfyr 2023. Cafodd rhai cyfraith yr UE a ddargedwir eu hesemptio yn y modd hwn gan Weinidogion y DU cyn y terfyn amser ond ni ddefnyddiodd Gweinidogion Cymru y pwerau hyn.

**Mae Adran 1 yn gosod machlud ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 ar 31 Rhagfyr 2023 oni bai bod Gweinidogion yn eu cadw. Mae adran 1(4) yn darparu opsiwn i esemptio cyfraith yr UE a ddargedwir o Atodlen 1, a thrwy hynny ei gadw rhag cael ei ddirymu ar 31 Rhagfyr. Rhaid bod hyn wedi'i wneud erbyn 31 Hydref 2023 naill ai gan Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru, neu'r ddau yn gweithredu ar y cyd.**

Gwnaeth Gweinidogion y DU esemptio **rhai cyfreithiau'r UE a ddargedwir** ym mis Medi 2023. Roedd y pedwar darn o gyfraith yr UE a ddargedwir yn ymwneud â chynhyrchion bioladdol sy'n cynnwys copr, sut yr ymchwilir i anafiadau a digwyddiadau morol, a rhannu canlyniad arolygiadau addasrwydd i'r ffordd gyda Gogledd Iwerddon a Gibraltar. Ni ddefnyddiodd Gweinidogion Cymru bwerau adran 1 cyn iddynt ddod i ben ar 31 Hydref 2023 ond gwnaethant **hysbysu pwyllgorau'r Senedd** o gamau gweithredu Gweinidog y DU.

Mae hyn yn golygu y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi cadw cyfraith yr UE a ddargedwir yn Atodlen 1 en bloc, a hynny drwy wneud un set o reoliadau yn rhestru cannoedd o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir datganoledig y mae'n dymuno'u cadw. Byddai rheoliadau adran 1(4) wedi bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, sy'n gofyn am ddadl yn y Senedd a chymeradwyaeth cyn y gallant ddod i rym.

Bydd cyfaith yr UE a ddargedwir a gadwyd yn dal i gael ei ystyried yn gyfraith yr UE a ddargedwir neu'n gyfraith a gymathwyd ar ôl 1 Ionawr 2024.

## Llwybr 2: Ailddatgan cyfraith yr UE a ddargedwir

**Mae adran 11 yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd i ailddatgan unrhyw is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir cyn 31 Rhagfyr 2023.**

Os caiff cyfraith yr UE a ddargedwir ei ailddatgan, ni fydd bellach yn cyfrif fel cyfraith yr UE a ddargedwir ac felly ni fydd yn awtomatig yn denu egwyddorion cyfraith yr UE fel goruchafiaeth, amddiffyniad o hawliau sylfaenol a chydraddoldeb. Fodd bynnag, gall y gyfraith a ailddatganir greu effaith gyfatebol, os yw Gweinidogion y DU neu Weinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol, sy'n golygu bod modd atgynhyrchu'r un canlyniad polisi.

**Mae adran 12 yn dyblygu adran 11 fel y gall Gweinidogion y DU neu Weinidogion Cymru sy'n gweithredu ar ei ben ei hun neu ar y cyd ailddatgan is-ddeddfwriaeth a gymathwyd neu atgynhyrchu hawliau, pwerau, rhwymedigaethau'r UE a ddargedwir ac ati sydd wedi'u machlud cyn 23 Mehefin 2026.**

O 1 Ionawr 2024, bydd holl gyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi goroesi yn cael ei ailenwi'n "gyfraith a gymathwyd" o dan adran 5 o'r Ddeddf, a drafodir ar **dudalen 10** isod. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion wneud newidiadau i gyfraith a gymathwyd hyd at 23 Mehefin 2026.

**Mae adran 13 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch adrannau 11 a 12.**

Er enghraifft:

- gall ailddatganiad ddefnyddio geiriau neu gysyniadau sy'n wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn y gyfraith sy'n cael ei hailddatgan;
- gall ailddatganiad wneud unrhyw newid y mae'r awdurdod cenedlaethol

perthnasol yn ei ystyried yn briodol i ddatrys amwysedd, cael gwared ar amheuon neu anghysondebau, gwella eglurder neu hygyrchedd y gyfraith; a

- gall rheoliadau o dan adrannau 11 a 12 wneud darpariaeth ynghylch y berthynas rhwng yr ailddatganiad a deddfwriaeth arall.

Nid yw cyfraith yr UE a ddargedwir/cyfraith a gymathwyd a ailddatganwyd bellach yn gyfraith yr UE a ddargedwir/cyfraith a gymathwyd a bydd yn cael ei hystyried yn gyfraith ddomestig arferol.

## Llwybr 3: Diddymu a disodli cyfraith yr UE a ddargedwir gyda'r un trefniadau

**Mae adran 14 yn bŵer eang sy'n caniatáu i Weinidogion y DU neu Gymru sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd ddirymu is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir i gyflawni'r un amcanion neu rai tebyg. Mae hefyd yn caniatáu iddynt ddirymu heb ei disodli, neu roi trefniadau amgen yn ei lle, cyn 23 Mehefin 2026.**

Mae adran 14(2) yn caniatáu i Weinidogion ddirymu a disodli cyfraith yr UE a ddargedwir i gyflawni'r un amcanion neu rai tebyg. Wrth wneud hynny, mae ganddynt y dewis, ymhlith pethau eraill, i roi swyddogaethau i unrhyw bersonau, creu troseddau, gosod cosbau ariannol a darparu ar gyfer codi ffioedd. Ni allai'r Gweinidogion osod trethi na sefydlu awdurdodau cyhoeddus.

### 'Baich rheoleiddiol'

Wrth ddirymu neu ddisodli is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir, ni chaiff Gweinidogion gynyddu baich rheoleiddio, gan gynnwys costau ariannol, rhwystrau masnach neu anghyfleustra gweinyddol.

Nid yw cyfraith yr UE a ddargedwir/cyfraith a gymathwyd sydd wedi'i dirymu fel hyn bellach yn gyfraith yr UE a ddargedwir/cyfraith a gymathwyd a bydd yn cael ei hystyried yn gyfraith ddomestig arferol.

## Llwybr 4: Peidio â chymryd unrhyw gamau a bydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn parhau i fod yn berthnasol. Bydd yn cael ei hailenwi'n "gyfraith a gymathwyd" o 1 Ionawr 2024 a bydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau a wneir iddo gan y Ddeddf.

**Mae adran 5 yn ailenwi cyfraith yr UE a ddargedwir nad yw'n gosod machlud awtomatig cyntaf ar 31 Rhagfyr 2023 fel "cyfraith a gymathwyd" o 1 Ionawr 2024.**

Bydd hyn yn berthnasol i holl gyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol sy'n deillio o'r UE, fel Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ailddatgan a diweddaru cyfraith a gymathwyd hyd at 23 Mehefin 2026.

# 4. Sut i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir

Mae'r Ddeddf fel y'i cyflwynwyd yn darparu tri llwybr i Weinidogion Cymru ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir, sydd wedi'u crynhoi yn yr adran hon.

## Llwybr 1: Dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir a'i disodli gyda threfniadau amgen

**Mae adran 14 yn bŵer eang sy'n caniatáu i Weinidogion y DU neu Gymru, sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, ddirymu is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir a'i disodli â threfniadau amgen. Mae hefyd yn caniatáu iddynt ddirymu heb ei disodli, neu ei disodli â'r un amcanion neu rai tebyg, cyn 23 Mehefin 2026.**

Mae adran 14(3) yn caniatáu i Weinidogion ddirymu cyfraith yr UE a ddargedwir a'i disodli â threfniadau amgen. Wrth wneud hynny, mae gan Weinidogion y dewis, ymhlith pethau eraill, i roi swyddogaethau i unrhyw bersonau, creu troseddau, gosod cosbau ariannol a darparu ar gyfer codi ffioedd. Ni allant osod trethi na sefydlu awdurdodau cyhoeddus.

Nid yw cyfraith yr UE a ddargedwir/cyfraith a gymathwyd sydd wedi'i dirymu fel hyn bellach yn gyfraith yr UE a ddargedwir/cyfraith a gymathwyd a bydd yn cael ei hystyried yn gyfraith ddomestig arferol.

### 'Baich rheoleiddiol'

Wrth ddirymu neu ddisodli is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir, ni chaiff Gweinidogion gynyddu baich rheoleiddio, gan gynnwys costau ariannol, rhwystrau masnach neu anghyfleustra gweinyddol.

## Llwybr 2: Diweddaru cyfraith yr UE a ddargedwir i ystyried datblygiadau mewn dealltwriaeth wyddonol a newidiadau technolegol;

**Mae adran 15 yn caniatáu i Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, addasu is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir a darpariaethau eraill a wneir o dan y Ddeddf, ystyried newidiadau technolegol neu ddatblygiadau mewn dealltwriaeth wyddonol.**

Gellir defnyddio'r pŵer hwn tan 31 Rhagfyr 2023 i addasu is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir, ac wedi hynny i addasu is-ddeddfwriaeth a gymathwyd. Gellir ei

ddefnyddio hefyd i ddiweddaru darpariaethau a wneir o dan adrannau 11, 12 a 14 o'r Ddeddf. Yn wahanol i bwerau eraill a roddir gan y Ddeddf, nid oes dyddiad terfyn ar y pŵer hwn.

## Newidiadau gweithdrefnol i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir

**Mae adran 9 yn addasu'r gweithdrefnau sy'n gymwys wrth ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir.**

Mae adran 9 (ac Atodlen 3) yn darparu y bydd dau gategori o gyfraith yr UE a ddargedwir (sef prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a hawliau uniongyrchol effeithiol ac ati a gadwyd o dan adran 4 Deddf Ymadael â'r UE 2018) yn cael eu hisraddio i statws is-ddeddfwriaeth ddomestig.

O ganlyniad, mae'r categorïau hynny o gyfraith yr UE a ddargedwir wedi dod yn haws i'w diwygio. Ar gyfer hawliau effeithiol uniongyrchol, dim ond hyd at 31 Rhagfyr 2023 y mae hyn yn berthnasol, pan fyddant yn cael eu dirymu'n awtomatig o dan adran 2 o'r Ddeddf.

Mae Atodlen 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 9. Gwneir diwygiadau i weithdrefn seneddol mewn deddfwriaeth arall, gan gynnwys meysydd datganoledig, fel y diwygiadau i **Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022**.

**Mae adran 10 yn diwygio Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 mewn perthynas â gofynion gweithdrefnol ar gyfer offerynnau statudol.**

Mae adran 10 yn dileu mesurau diogelu ar ôl ymadael â'r UE a roddwyd ar waith i Weinidogion y DU eu defnyddio o'u pwerau i addasu neu ddirymu rheoliadau a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Roedd y mesurau diogelu ar ffurf gwaith craffu ychwanegol gan Senedd y DU; er enghraifft, roedd yn rhaid i Weinidogion y DU wneud datganiadau penodol ynghylch effaith y diwygiad neu'r dirymiad.

# 5. Sut i ddileu cyfraith yr UE a ddargedwir

Mae'r Ddeddf yn darparu dau lwybr i Weinidogion Cymru ddileu cyfraith yr UE a ddargedwir, sydd wedi'u crynhoi yn yr adran hon.

## Llwybr 1: Gwneud dim a bydd rhai cyfreithiau'r UE a ddargedwir yn dirymu ar 31 Rhagfyr 2023

**Mae adran 1 yn dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 ar 31 Rhagfyr 2023 oni bai ei bod yn cael ei thynnu oddi ar Atodlen 1 gan Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru cyn 31 Hydref 2023.**

Mae Atodlen 1(1) yn dirymu'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 ar 31 Rhagfyr 2023.

Mae adran 1(4) yn darparu opsiwn i ddileu cyfraith yr UE a ddargedwir o Atodlen 1 os yw cyfraith yr UE a ddargedwir wedi'i phennu mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU, Gweinidogion Cymru neu'r ddau'n gweithredu ar y cyd cyn 31 Hydref 2023.

**Bydd adran 2 yn gosod machlud ar gyfer hawliau, pwerau, rhwymedigaethau ac ati sy'n deillio o'r UE ar 31 Rhagfyr 2023.**

Mae'r rhain yn gymwys yn rhinwedd adran 4 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Bydd adran 2 yn gosod machlud awtomatig ar gyfer adran 4 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ac unrhyw beth sydd wedi'i ddargadw yn rhinwedd hynny. Ni fydd hawliau ac ati sy'n deillio o'r UE sy'n cael eu cadw o dan adran 4 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 bellach yn cael eu cydnabod nac ar gael mewn cyfraith ddomestig, ac yn unol â hynny, ni fydd modd eu gorfodi, eu caniatáu na'u dilyn. Fel y mae **Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin** yn ei esbonio, roedd rhai hawliau o'r fath o gytuniadau'r UE eisoes wedi'u datgymhwyso mewn rhai achosion penodol, fel y rhyddid i symud.

Bydd Adran 2 yn gosod machlud ar bob hawl o'r fath sy'n weddill yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae modd dyblygu eu heffeithiau o hyd drwy ddefnyddio pwerau ailddatgan o dan adrannau 11 a 12 cyn 23 Mehefin 2026.

**Mae adran 3 yn diddymu goruchafiaeth cyfraith yr UE ar ôl diwedd 2023 ac yn cyflwyno hierarchaeth newydd mewn cyfraith ddomestig.**

Mae adran 3 yn gwneud newidiadau fel bod cyfraith uniongyrchol yr UE a

ddargedwir yn cael statws is yn y gyfraith na deddfwriaeth ddomestig, sy'n golygu bod cyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir i'w darllen a'i rhoi ar waith mewn ffordd sy'n gydnaws â deddfwriaeth ddomestig (yn amodol ar rai rheolau penodol sy'n gymwys i ddeddfwriaeth diogelu data).

Er gwaethaf diddymu'r egwyddor o oruchafiaeth, gall Gweinidogion ail-greu effaith goruchafiaeth mewn perthynas â deddfiadau penodol hyd at 23 Mehefin 2026 (gweler adrannau 3, 11, 12 a 13).

**Mae adran 4 yn diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE ar ôl diwedd 2023.**

Mae'r rhain yn cynnwys sicrwydd cyfreithiol, triniaeth gyfartal, cymesuredd, parch at hawliau sylfaenol a'r egwyddor ragofalus.

## Llwybr 2: Dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir heb ei disodli

**Mae adran 14 yn bŵer eang sy'n caniatáu i Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru, sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, ddirymu is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir heb ei disodli. Mae hefyd yn caniatáu iddynt ei dirymu a'i disodli i gyflawni'r un amcanion neu rai tebyg, neu ei disodli â threfniadau amgen, cyn 23 Mehefin 2026.**

Mae adran 14(1) yn caniatáu dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir heb ei ddisodli.

# 6. Newidiadau rheoleiddiol i leihau beichiau

**Mae adran 16 yn diwygio deddfwriaeth sy'n caniatáu i Weinidogion y DU 'ddileu a lleihau beichiau'.**

Mae Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 wedi'i diwygio i gynnwys deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Diben y Ddeddf yw dileu neu leihau unrhyw faich, neu'r beichiau cyffredinol, sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw berson o unrhyw ddeddfwriaeth.

**Mae adran 18 yn diddymu'r Targed Effaith Busnes fel rhan o ddiwygiadau rheoleiddiol eraill.**

Mae'r Targed Effaith Busnes yn ymwneud â'r **effaith economaidd ar fusnes gofynion rheoleiddiol** sy'n cael eu cyflwyno neu sy'n dod i ben yn ystod senedd. Nid yw'r Targed Effaith Busnes yn gymwys i ddarpariaethau rheoleiddiol mewn meysydd datganoledig.

# 7. O 1 Ionawr 2024 ymlaen

## Bydd cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n weddill yn cael ei hailenwi'n "gyfraith a gymathwyd"

**Mae adran 5 yn ailenwi cyfraith yr UE a ddargedwir nad yw'n gosod machlud awtomatig cyntaf ar 31 Rhagfyr 2023 fel "cyfraith a gymathwyd" o 1 Ionawr 2024.**

Bydd hyn yn berthnasol i holl gyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol sy'n deillio o'r UE, fel Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud newidiadau i cyfraith a gymathwyd hyd at 23 Mehefin 2026.

## Caiff goruchafiaeth cyfraith yr UE a ddargedwir ei diddymu, gan gyflwyno hierarchaeth newydd o gyfraith ddomestig

**Mae adran 3 yn diddymu goruchafiaeth cyfraith yr UE ar ôl diwedd 2023 ac yn cyflwyno hierarchaeth newydd mewn cyfraith ddomestig.**

O 2024 ymlaen, rhaid darllen cyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir a rhoi effaith iddi yn unol â deddfwriaeth ddomestig, hyd yn oed os yw'r ddeddfwriaeth ddomestig yn rhagddyddio cyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Bydd hyn yn gofyn am ailddehongli meysydd allweddol o gyfraith ddomestig.

Er gwaethaf diddymu'r egwyddor o oruchafiaeth, gall Gweinidogion ail-greu effaith goruchafiaeth mewn perthynas â deddfiadau penodol hyd at 23 Mehefin 2026 (gweler adrannau 3, 11, 12 a 13).

## Caiff egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a ddargedwir eu diddymu

**Mae adran 4 yn diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE ar ôl diwedd 2023.**

Ni fydd cyfraith ddomestig bellach yn cael ei darllen yn unol ag egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE o 2024 ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys sicrwydd cyfreithiol, triniaeth gyfartal, cymesuredd, parch at hawliau sylfaenol a'r egwyddor ragofalus.

## Bydd mwy o newidiadau i'r ffordd y mae llysoedd domestig yn ymdrin â chyfraith yr UE a ddargedwir yn y dyfodol

**Mae adran 6 yn newid rôl y llysoedd fel nad ydynt bellach yn rhwym i gyfraith achosion yr UE a ddargedwir.**

Gall llysoedd uwch a llysoedd apêl wyro oddi wrth benderfyniadau blaenorol ond rhaid i lysoedd a thribiwnlysoedd is gyfeirio penderfyniadau i wyro at lysoedd uwch.

Mewn rhai amgylchiadau, gall y Cwnsler Cyffredinol:

- gyfeirio pwyntiau cyfreithiol ar achosion o gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn chwe mis, a all arwain yn y pen draw at glywed yr achos gan y Goruchaf Lys; a
- ddod yn barti i achosion sy'n ymwneud ag ystyr neu effaith deddfwriaeth Gymreig.

Daw adran 6 i rym pan fydd Llywodraeth y DU yn gwneud rheoliadau i wneud hynny.

**Mae adran 7 yn caniatáu i gyfraith ddomestig gael ei darllen a'i rhoi ar waith fel ei bod yn gydnaws â chyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Daw'r pŵer hwn i ben ar 23 Mehefin 2026.**

Daeth adran 7 i rym ar y diwrnod y cafodd y Ddeddf ei phasio.

**Mae adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol i lysoedd a thribiwnlysoedd gyhoeddi gorchmynion anghydnawsedd pan fyddant yn penderfynu bod darpariaeth cyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn anghydnaws â chyfraith ddomestig, neu os oedd cyfraith ddomestig yn anghydnaws â chyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir a bod rheoliadau adran 7 wedi'u gwneud. Mae adran 7 yn caniatáu i gyfraith ddomestig gael ei darllen a'i rhoi ar waith fel ei bod yn gydnaws â chyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir.**

Gall gorchmynion anghydnawsedd:

i. nodi effaith y ddarpariaeth berthnasol yn ei gweithrediad mewn perthynas â'r achos penodol hwnnw;

ii. oedi pa bryd y daw'r gorchymyn i rym; a

iii. dileu neu gyfyngu ar unrhyw effaith o weithrediad y ddarpariaeth berthnasol cyn i'r gorchymyn ddod i rym.

Daw adran 8 i rym pan fydd Llywodraeth y DU yn gwneud rheoliadau i wneud hynny.

# 8. Rheolau ar gyfer gwneud rheoliadau

**Mae adran 19 yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o ganlyniad i'r Ddeddf fel y maent yn ei ystyried yn briodol, sy'n cynnwys y pŵer i addasu unrhyw ddeddfiad.**

Mae hyn yn cynnwys Gweinidogion y DU yn gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig.

**Mae adran 20 yn egluro cwmpas y pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau yn y Ddeddf, ac yn cyflwyno Atodlenni 4 a 5 i'r Ddeddf.**

Mae hyn yn egluro y gellir defnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau, er enghraifft, i wneud darpariaeth atodol a throsiannol.

**Mae Atodlen 2 yn newid cyfeiriadau yn y ddeddfwriaeth a restrir o 'gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir' at 'gyfraith a gymathwyd', gan gynnwys at Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.**

Rhestrir cyfreithiau eraill sy'n ymwneud â datganoli a Brexit, megis Deddf yr Alban 1998, Deddf Gogledd Iwerddon 1998 ac Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Mae Atodlen 3 yn diwygio'r weithdrefn seneddol ar gyfer deddfwriaeth mewn meysydd datganoledig, megis Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022.**

Mae'r Senedd wedi atal cydsyniad ar gyfer rhywfaint o'r ddeddfwriaeth hon.

**Mae Atodlen 4 yn amlinellu cyfyngiadau ar Weinidogion datganoledig, i'r graddau na chânt wneud darpariaeth y tu allan i gymhwysedd datganoledig.**

Mae'r cyfyngiadau hyn hefyd yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â chael cydsyniad gan Weinidogion y DU ac amgylchiadau lle y dylid ymgynghori â Gweinidogion y DU.

**Mae Atodlen 5 yn gosod gweithdrefnau ar gyfer y pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau yn y Ddeddf, gan gynnwys darparu rôl sifftio i un o bwyllgorau'r Senedd. Ar 27 Medi, cadarnhaodd y Senedd mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fydd y pwyllgor hwn.**

Mae'r gweithdrefnau'n cwmpasu Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd. Maent hefyd yn darparu fel a ganlyn:

- Rhaid i reoliadau gael eu gwneud drwy offerynnau statudol;
- Rheolau ar gyfer cyfuno rheoliadau a wneir o dan bwerau gwahanol; ac
- Yn gwahardd ystyried rheoliadau'n **offerynnau hybrid**, sy'n golygu y byddent yn osgoi gweithdrefn seneddol arbennig yn y DU sy'n caniatáu i'r rhai y mae'r rheoliadau'n cael effaith negyddol arnynt gyflwyno eu dadleuon yn eu herbyn

Mae'r adran isod yn crynhoi sut mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â Gweinidogion y DU.

## Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain

Mae'r weithdrefn ar gyfer Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain wedi'i nodi yn Rhan 2 o Atodlen 5.

**Rheoliadau a wneir o dan y weithdrefn gadarnhaol.**

Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adrannau canlynol yn y Ddeddf, a hynny dim ond os yw drafft o'r offeryn wedi'i osod gerbron y Senedd ac wedi'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo:

i. Mae **adran 1** yn esemptio cyfraith yr UE a ddargedwir o Atodlen 1, a thrwy hynny ei gadw rhag cael ei ddirymu ar 31 Rhagfyr. Daeth y pŵer hwn i ben ar 31 Hydref 2023;

ii. **Adran 7** sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol. Mae adran 7 yn rhoi pŵer i Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru ail-greu egwyddor goruchafiaeth yr UE, fel bod deddfwriaeth ddomestig benodol i'w darllen a'i rhoi ar waith mewn modd sy'n gydnaws â chyfraith benodol uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Daw'r pŵer hwn i ben ar 23 Mehefin 2026;

iii. rheoliadau o dan **adrannau 11 neu 12** sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol. Mae adran 11 yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru ailddatgan unrhyw is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir cyn diwedd 2023. Mae adran 12 yn dyblygu adran 11 fel y gall un o Weinidogion y DU neu Gymru ailddatgan is-ddeddfwriaeth a gymathwyd neu atgynhyrchu

hawliau, pwerau, rhwymedigaethau'r UE ac ati a ddargedwir sydd wedi'u machlud cyn 23 Mehefin 2026.

iv. rheoliadau o dan **adran 14(2)** sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth neu greu trosedd. Mae adran 14(2) yn caniatáu i Weinidogion y DU neu Gymru ddirymu is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir a'i disodli â'r un amcanion neu rai tebyg cyn 23 Mehefin 2026;

v. rheoliadau o dan **adran 14(3). Mae adran 14(3)** yn caniatáu i Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru ddirymu is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir a'i disodli â threfniadau amgen cyn 23 Mehefin 2026;

vi. rheoliadau o dan **adran 19** sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol.

**Mae'r Ddeddf yn gwneud rhai rheoliadau yn agored i gael eu dirymu.**

Mae rheoliadau eraill o dan y Ddeddf yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol:

- **Adran 7** nad yw'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol. Daw'r pŵer hwn i ben ar 23 Mehefin 2026;
- rheoliadau o dan **adran 15**. Mae adran 15 yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru addasu is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir os ydynt yn credu ei bod yn briodol ystyried newidiadau technolegol neu ddatblygiadau mewn dealltwriaeth wyddonol.
- **Adran 19** nad yw'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol.

Mewn achosion eraill, mae gan Weinidogion Cymru ddewis ynghylch a ddylai'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn negyddol fod yn gymwys. Er enghraifft, bydd y dewis hwn yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 14(1), sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddirymu is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir, heb ei disodli.

### Proses sifftio

Os yw Gweinidogion Cymru am wneud rheoliadau o'r fath gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol, yna mae proses sifftio yn gymwys.

O dan y broses sifftio, rhaid bodloni dau amod cyn y gall Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol (nid yw'r broses sifftio yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn dewis gwneud y rheoliadau gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft). Rhaid bodloni amod 1, ynghyd ag amod 2 neu 3 isod:

1. **Amod 1** yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud datganiad ysgrifenedig y dylai'r offeryn statudol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Rhaid gosod gerbron y Senedd femorandwm sy'n cynnwys y datganiad a'r rhesymau dros eu barn gyda drafft o'r offeryn statudol.
2. **Amod 2** yw bod un o bwyllgorau'r Senedd sy'n gyfrifol am wneud hynny wedi gwneud argymhelliad ynghylch y weithdrefn briodol ar gyfer yr offeryn. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw'r pwyllgor hwn, fel sydd wedi'i esbonio uchod (gweler **tudalen 19**). Noder nad oes rhaid i Weinidogion Cymru dderbyn argymhelliad y pwyllgor.
3. **Amod 3** yw bod 14 diwrnod wedi pasio ers gosod yr offeryn drafft yn y Senedd ac nad oes un o bwyllgorau'r Senedd wedi gwneud unrhyw argymhelliad.

### Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd

Mae Rhan 3 o Atodlen 5 yn gymwys ar gyfer arfer pwerau ar y cyd gan Weinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig. Mae hyn yn sefydlu gweithdrefn gyfochrog yn Senedd y DU a Senedd Cymru ar gyfer rheoliadau a wneir ar y cyd o dan y Bil.

## 9. Cychwyn, rhychwant ac ati

### Dehongli

**Mae adran 21 yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y Bil.**

### Rhychwant, cychwyn a theitl byr

**Mae adran 22 yn nodi pryd y daw pob adran i rym.**

**Mae adran 23 yn datgan teitl llawn y Ddeddf ac yn cadarnhau ei fod yn gymwys i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.**

# 10. Atodiad: Darpariaethau'r Bil ar gipolwg

Mae Adran 1 yn gosod machlud ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 ar 31 Rhagfyr 2023 oni bai bod Gweinidogion yn eu cadw. Mae adran 1(4) yn darparu opsiwn i esemptio cyfraith yr UE a ddargedwir o Atodlen 1, a thrwy hynny ei gadw rhag cael ei ddirymu ar 31 Rhagfyr 2023. Rhaid bod hyn wedi'i wneud erbyn 31 Hydref 2023 naill ai gan Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru, neu'r ddau yn gweithredu ar y cyd.

Mae adran 2 yn gosod machlud ar gyfer hawliau, pwerau, rhwymedigaethau ac ati sy'n deillio o'r UE yn adran 4 o Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, ac unrhyw beth sydd wedi'i gadw yn ei rhinwedd ar 31 Rhagfyr 2023.

Mae adran 3 yn diddymu goruchafiaeth cyfraith yr UE ar ôl diwedd 2023 ac yn cyflwyno hierarchaeth newydd mewn cyfraith ddomestig.

Mae adran 4 yn diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE ar ôl diwedd 2023. Mae'r rhain yn cynnwys sicrwydd cyfreithiol, triniaeth gyfartal, cymesuredd, parch at hawliau sylfaenol a'r egwyddor ragofalus.

Mae adran 5 yn ailenwi cyfraith yr UE a ddargedwir nad yw'n gosod machlud awtomatig cyntaf ar 31 Rhagfyr 2023 fel "cyfraith a gymathwyd" o 1 Ionawr 2024.

Mae adran 6 yn newid rôl y llysoedd fel nad ydynt bellach yn rhwym i gyfraith achosion yr UE a ddargedwir.  Mewn rhai amgylchiadau, gall y Cwnsler Cyffredinol gyfeirio pwyntiau cyfreithiol ar achosion o gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn chwe mis, a all arwain yn y pen draw at glywed yr achos gan y Goruchaf Lys. Gall y Cwnsler Cyffredinol hefyd ddod yn barti i achosion sy'n ymwneud ag ystyr neu effaith deddfwriaeth Gymreig.

Mae adran 7 yn caniatáu i gyfraith ddomestig gael ei darllen a'i rhoi ar waith fel ei bod yn gydnaws â chyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Daw'r pŵer hwn i ben ar 23 Mehefin 2026.

Mae adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol i lysoedd a thribiwnlysoedd gyhoeddi gorchmynion anghydnawsedd pan fyddant yn penderfynu bod darpariaeth cyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn anghydnaws â chyfraith ddomestig, neu os oedd cyfraith ddomestig yn anghydnaws â chyfraith

uniongyrchol yr UE a ddargedwir a bod rheoliadau adran 7 wedi'u gwneud. Mae adran 7 yn caniatáu i gyfraith ddomestig gael ei darllen a'i rhoi ar waith fel ei bod yn gydnaws â chyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

Mae adran 9 yn addasu'r gweithdrefnau sy'n gymwys wrth ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018. O ganlyniad, bydd yn dod yn haws diwygio rhai categorïau o gyfraith yr UE a ddargedwir.

Mae adran 10 yn diwygio Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 mewn perthynas â gofynion gweithdrefnol ar gyfer offerynnau statudol.

Mae adran 11 yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd i ailddatgan unrhyw is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir cyn diwedd 2023.

Mae adran 12 yn dyblygu adran 11 fel y gall un o Weinidogion y DU neu Gymru sy'n gweithredu ar ei ben ei hun neu ar y cyd ailddatgan is-ddeddfwriaeth a gymathwyd neu atgynhyrchu hawliau, pwerau, rhwymedigaethau'r UE a ddargedwir ac ati sydd wedi'u machlud cyn 23 Mehefin 2026.

Mae adran 13 yn gwneud darpariaethau cyffredinol ynghylch adrannau 11 a 12.

Mae adran 14 yn bŵer eang sy'n caniatáu i Weinidogion y DU neu Gymru, sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, ddirymu is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir heb ei disodli i gyflawni'r un amcanion neu amcanion tebyg, neu ei disodli â threfniadau amgen. Rhaid i Weinidogion beidio â chynyddu'r baich rheoleiddiol wrth ddirymu neu ddisodli cyfraith yr UE a ddargedwir o dan yr adran hwn. Daw'r pwerau hyn i ben ar 23 Mehefin 2026.

Mae adran 15 yn caniatáu i Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, addasu is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir ac is-ddeddfwriaeth a gymathwyd, ystyried newidiadau technolegol neu ddatblygiadau mewn dealltwriaeth wyddonol.

Mae adran 16 yn diwygio Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 i gynnwys deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion y DU ddileu a lleihau beichiau. Mae 'baich' yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol: cost ariannol, anghyfleustra gweinyddol, rhwystr i effeithlonrwydd, cynhyrchiant neu broffidioldeb, neu gosb, troseddol neu fel arall, sy'n effeithio ar gyflawni unrhyw weithgaredd cyfreithlon.

Mae Adran 17 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth y DU i lunio adroddiadau ar y Ddeddf sy'n cwmpasu cyfnodau chwe mis ac yn rhoi gofynion ar gyfer yr hyn y dylai'r adroddiad ei gynnwys. Rhaid i bob adroddiad ddarparu:

- Crynodeb o'r dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir wedi'i ddiweddaru;

- Diweddariad cynnydd ar ddirymu a diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir yn y cyfnod adrodd;

- Cynllun ar gyfer dirymu a diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir mewn cyfnodau adrodd dilynol, gan gynnwys rhestr o ddarpariaethau.

Mae adran 18 yn diddymu'r Targed Effaith Busnes fel rhan o ddiwygiadau rheoleiddiol eraill. Nid yw'r Targed Effaith Busnes yn gymwys i ddarpariaethau rheoleiddiol mewn meysydd datganoledig.

Mae adran 19 yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU wneud rheoliadau o ganlyniad i'r Ddeddf fel y maent yn ei ystyried yn briodol, sy'n cynnwys y pŵer i addasu unrhyw ddeddfiad.

Mae adran 20 yn egluro cwmpas y pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau yn y Bil, ac yn cyflwyno Atodlenni 4 a 5 i'r Ddeddf.

Mae adran 21 yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf.

Mae adran 22 yn nodi pryd y daw pob adran o'r Ddeddf i rym.

Mae adran 23 yn datgan teitl llawn y Ddeddf ac yn cadarnhau ei fod yn gymwys i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae Atodlen 1 yn rhestru cyfraith yr UE a ddargedwir i'w dirymu ar 31 Rhagfyr 2023 ac yn rhestru cyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

Mae Atodlen 2 yn newid cyfeiriadau yn y ddeddfwriaeth a restrir o 'gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir' at 'gyfraith a gymathwyd', gan gynnwys at Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

Mae Atodlen 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 9, gan gynnwys diwygio'r weithdrefn seneddol ar gyfer cyfraith benodol yr UE a ddargedwir.

Mae Atodlen 4 yn amlinellu cyfyngiadau ar Weinidogion datganoledig, i'r graddau na chânt wneud darpariaeth y tu allan i gymhwysedd datganoledig.

Mae Atodlen 5 yn gosod gweithdrefnau ar gyfer y pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau yn y Ddeddf, gan gynnwys darparu rôl sifftio i un o bwyllgorau'r Senedd. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw'r pwyllgor hwn.